OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2763 (Cy.268)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *30 Hydref 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Hydref 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 8(1) ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003; mae'n gymwys i Gymru'n unig a daw i rym ar 31 Hydref 2003.

**Diwygio Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**) yn unol â darpariaethau'r erthygl hon.

(2) Yn erthygl 1(2) yn lle “1 Tachwedd 2003” rhoddir “31 Mawrth 2004”.

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i “the Ministers” (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd “the Ministers” a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach wedyn bob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2303 (Cy.228), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/170 (Cy.30).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D.Elis-Thomas*

30 Hydref 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

*Ben Bradshaw*

30 Hydref 2003 — Is-Ysgrifennydd Seneddo,l Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Oni bai am y Gorchymyn hwn, byddai Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 yn peidio â bod yn effeithiol ar 1 Tachwedd 2003. Er mwyn ymgynghori ar ddarpariaethau parhaol i gymryd lle'r darpariaethau dros dro a gynhwysir yn y Gorchymyn hwnnw, mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu i'r Gorchymyn hwnnw barhau mewn grym hyd 31 Mawrth 2004.